Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cynllun Pensiwn yr Aelodau

9 Hydref 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 23 Medi, pan wnaethoch ofyn:

> *This is a request under the Freedom of Information Act 2000 regarding the Members of the Senedd Pension Scheme (scheme).*
> *Please provide the following:*
>
> *(i) A list of companies in which the scheme directly holds shares, and the market value of each holding.*
> *(ii) A list of the various investment funds in which the scheme invests - both the name of each fund, and the investment manager who deals with it.*
> *(iii) A list of companies invested in by the investment funds that the scheme holds funds in, providing the market value of each underlying investment. Understanding that the value of shares and bonds held indirectly fluctuate frequently, simply the latest information you already have on this will be fine.*
> *(iv) total market value of the scheme's investment portfolio.*

Gweler ein hymateb isod.

Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yw'r corff corfforaethol sy'n darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Senedd.   Y Comisiwn sy'n gweinyddu Cynllun Pensiwn yr Aelodau.

Y Comisiwn sy'n dal gwybodaeth yn ymwneud â Chynllun Pensiwn yr Aelodau ar ran Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau. O dan adran 3(2) o Ddeddf Rhyddid

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Gwybodaeth 2000 (“y Ddeddf”): delir gwybodaeth gan awdurdod cyhoeddus o dan yr amod hwn–

*(a) it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person’.*

Mae’r Comisiwn yn dal gwybodaeth ar ran person arall (sef ar ran yr Ymddiriedolwyr yn yr achos hwn), ac ni chaiff ei ’dal’ gan y Comisiwn at ddibenion y Ddeddf. Yn yr amgylchiadau hyn, ni all y Comisiwn ddatgelu'r wybodaeth hon.

Os hoffech wneud cais i'r Ymddiriedolwyr am y wybodaeth hon, efallai yr hoffech gysylltu â nhw yn uniongyrchol drwy'r cyfeiriad a ganlyn, gan gofio, fodd bynnag nad yw’r Ymddiriedolwyr yn ‘awdurdod cyhoeddus’ o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, felly ni fyddent o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Ysgrifennydd y Cynllun
Cynllun Pensiwn yr Aelodau
d/o Tîm Pensiynau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Mae rhagor o wybodaeth yn **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cynllun**. Mae'r fersiwn diweddaraf wedi'i chyhoeddi ar-lein **mps-trustee-report-and-accounts-2023-24-final-welsh-web-unsigned.pdf**

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon â sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF